



Pant y Defaid, Waunfawr, tua pedwar o'r gloch prynhawn y 20 Ragfyr 2010 - y noson oeraf a gofnodwd erioed yn y pentref, meddai Huw Holland Jones: *Latest temp update..at 5.15pm it's now -8C, if it keeps falling this could be one of our coldest nights ever. Only reached -2C today, first time since I've lived in Waunfawr the temp failed to reach 0C during the day (been here since summer 1994)*

## Beth a welaist ar y lawnt..?

[Addasiad o sgrïpt ddarlledwyd ar 'Galwad Cynnar', Radio Cymru, Chwefror 25ain, 2006 gan Twm Elias, Gyda diolch i BBC Radio Cymru a geidw pob hawl]

"Beth a welaist ar y lawnt,  
Gyda'i wyneb gwyn, edifar?  
Tlws yr eira, blodyn Mawrth,  
Wedi codi yn rhy gynnar."

Dyna ddywedodd Eifion Wyn am yr Eirlysiau, neu Flodau'r Eira, tra dywedodd Richard Morgan yn ei Lyfr Blodau (1909): "Efe yw blodyn gobaiith, a blaenffrwyth blodau'r flwyddyn". Mae'r Eirlysiau yn gyffredin mewn gerddi, ambell goedlan, ac yma ac acw ar ochrau ffyrdd – yn enwedig os oes tai, plasdy, eglwys neu olion hen fynachlog wrth ymyl. A'r rheswm pam ydi mai wedi eu plannu neu ddianc o erddi mae'r rhan fwy ohonynt. 'Does dim sicrwydd llwyr bod eirlysiau yn frodorol i



Llun: Alun Williams, Chwefror 2010, Castell Bodelwyddan

Brydain, neu beidio, ac os ydynt, mae'n debyg mai de-orllewin Lloegr a gorllewin Cymru ydy eu cynefin naturiol nhw. Be sy'n ffwandro pobol sy' ishio gwybod eu hanes ydi bod eirlysiau, mae'n debyg, wedi cael eu lledaenu drwy'r wlad gan fynachod yn y Canol Oesoedd i'w plannu ger y mynachlogydd. A'r rheswm pam oedd i gael blodau i addurno capeli'r mynachlogydd adeg Gŵyl Fair y Canhwyllau, sy' ar Chwefror 2<sup>il</sup> bob blwyddyn. Gwnaed hynny am fod gwyn y blodau yn cynrychioli purdeb y Forwyn Fair – sy'n elfen mor bwysig yng ngredo'r Eglwys Gatholig – ac felly oedd hi yma hefyd yn y Gymru Gatholig cyn i Hari'r 8<sup>fed</sup> ffræo hefo'r Pâb a meddiannu'r mynachlogydd. Ac am mai wedi eu plannu y tu allan i'w cynefin naturiol y mae y rhan fwy o Eirlysiau – anamal iawn y byddant yn hadu yn y wlad yma. A hynny am eu bod yn blodeuo'n llawer rhy gynnar i'r pryfed a'r gwenyn fuasa'n eu peillio petaent yn tyfu yn Ffrainc neu Lydaw. Ond, am eu bod yn tyfu mor hawdd o fylbiau – ni fu problem i'w cyflwyno i bob cwr o'r wlad bron. Ond, er y cysylltiad hefo'r Forwyn Fair a Gŵyl y Canhwyllau mae d'wad ag Eirlysiau i'r tŷ yn dal i gael ei ystyried yn anlwcus – ac yn beryg o achosi marwolaeth yn y teulu. I rai pobl mae hyd'noed siâp y blodyn yn eu hatgoffa o farwolaeth – am ei fod fel amdo yn amgau corff bychan. Byddai dwad ag Eirlysiau i'r tŷ yn yr 16g – 17g yn eich rhoi mewn peryg o gael eich cyhuddo o fod yn Gatholig – oherwydd y cysylltiad hefo'r Forwyn Fair, ar adeg pan oedd Catholigion yn cael eu herlid a'u hoffeiraid yn cael eu merthyru. Ond y gwir reswm pam na ddylsech ddwad ag eirlysiau – na blodau eraill y gwanwyn – i'r tŷ (fioledau, briallu, cynffona wŷn bach a chywion gwyddau'r helyg ayyb) ydy mai rhyfygu ydych chi. Hynny yw, yn cym'ryd y gwanwyn yn rhy ganiataol ac felly'n debyg o ddwyn rhyferthwy'r gaeaf am eich pen! Ac os ydy dwad a briallu a chywion gwydda' i'r tŷ yn debyg o amharu ar lwyddiant deoriad y cywion, a chynffona' wŷn bach yn amharu ar lwyddiant wŷn a'r defaid, fe fyddai dwad ag eirlysiau i'r tŷ yn amharu nid yn unig arnoch chi a'ch teulu ond, hefyd, fe fyddai llaeth y fuwch yn mynd yn ddyfrllyd a'r menyn yn wyn.

## Llyffantod John Clare

*The frogs have began to croke and spawn in the ponds and dykes. Dyna ddywedodd y bardd gwlad o swydd Northampton, John Clare, ar 11 Mawrth 1825. Roedd gwanwyn y flwyddyn honno yn anarferol o gynnar yn ôl Clare (meddai Clare: "...saw the Corn tree [y cwytrosyn] putting out into leaf - a yellow crocus and a bunch of single snowdrops in full flower - the mavis thrush has been singing all day long Spring seems begun - the wood bines all over the wood are in full leaf. Mae'r dyddiad cyfartalog dodwy griffth heddiw yn Waunfawr tua diwedd mis Ionawr hyd canol mis Chwefror. Ydi tymor y griffth yn gynt heddiw nag a fu - ynteu ynghynt na dwyrain Lloegr? Hefyd ar y 10 Ebrill yr un flwyddyn dywedodd: Found a branch of white thorn in Porters Snow close knotted and nearly in flower. It is considered very early if a branch of May as it is called can be found on the first of new May [yr oedd dyddiad yr Hen Fai yn 11 diwrnod ar ôl hynnu, sef 12ed Mai yn yr hen galendr Juliaidd]).*

## Heth Fawr 1895...eto

Ydych chi'n cofio'r llun wedi ei dynnu ar y rhew ar Lyn Padarn yn ystod Heth Fawr 1895 (Bwletin 25). Wel dyma gofnod o'r un cyfnod i berwyl tebyg: 9 Chwefror 1895: *Went up to the lake with Dunlop [y ci?] Skating going on there*

Dyddiaduron Y Parch. Richard Llywelyn Headley  
(Gyda diolch i'w ferch y Dr. Mari Ellis, Aberystwyth)

## Lleian Llyn Traws



Lleian wen (iar) ar Lyn Trawsfynydd heddiw (11 Rhag 2010)

Llun:Rhys Jones

*There was an unusual record of [a smew] obtained at Porthmadog market on 21 January 1881*

Lovegrove et al (1994): Birds in Wales

## Y Ffoes Ddyfn

*The spot in England and Wales where snow lies last is Y Ffoes Ddyfn 1200yds NNE of Carnedd Llewelyn. Snow seen here up to midsummer. It is a small gully [sic] 50 feet deep which becomes filled up with snow in winter 3000 feet above sea level.*

Llythyr gan Les Larsen i'r Met Office

"Wedi gaeafau eirlyd mae'r ffoes neu'r hafn yn yr Afon Wen yn llenwi efo eira sydd yn cymryd hydroedd i ddadmer. Gwelir yr Afon Wen yn glir o Groeslon Tŷ Mawr", meddai Les.

## Cwlm

18 Medi 1894: Nol cwlm i Felin Bodwrdda Rhoddi wire uwch ben twll Gravel [Ystyron *culm* yn yr OED: 1. soot, smut, 2. coal-dust, small or refuse coal, slack...Hence spec. applied to the slack of anthracite or stone-coal, from the Welsh collieries, which was in common use for burning lime and drying malt.]

Dyddiadur William Jones, Moelfra, Aberdaron  
(drwy garedigrwydd Mrs W Miners a Miss D Roberts)

Yn ôl Wikipedia, "The Culm Measures are a geological formation of the Carboniferous period that occur in south-west England, principally in Devon and Cornwall. They are so called because of the occasional presence of a soft, sooty coal, which is known in Devon as *culm*".

Mis Chwefror yw'r tymor bydd geifr gwyllt y Rhinogydd yn bwrw eu mynn. A dyma Twm




Elias yn yr 1980au yn cynorthwy'r Cyngor Gwarchod Natur (cyn i'r Cyngor Cefn Gwlad ddod i fodolaeth) i ddal ac i dagio'r geifr bach er mwyn deall yn well sut y maent yn defnyddio eu cynefin garw. Bydd mwy am ddarganfyddiadau'r gwaith hwn yn fuan.

Dyma nodyn yn llyfr maes DB, 4 Mawrth 1981: *Dinas: Kids abundant but too fragile to catch*



From the normal expression (top left) Leyhausen showed moves to the right were increasing attack threat, and descending moves were increasing defence. Attackers swivel ears to show more of the back of the ear, while defenders flatten the ears sideways.



Gyda diolch i Random House Archive & Library am ganiatad i ddefnyddio'r deigram.

## Eira yn Llydaw Rhagfyr 2010



Golygfa anarferol iawn yn nhre Landernau, ger Brest, Llydaw, Rhagfyr 2010 meddai Gabriel Quéré

### Newyddion o'r Chwyldro:

14 Gorff 1790: The sky like a sea of Blood. Never beheld anything like it but once before - that was the evening of the fire kindled by Lord George Gordon in London. I tremble for France.

A Year with the Ladies of Llangollen

1 Meh 1794: Failing harvests at home all led to great popular discontents. Herein lies the significance of the "Battle of the Glorious First of June" in 1794. As an engagement it was inconclusive, and in its purpose (that of preventing corn supplies from reaching the famine stricken people of France) it was a failure

Trafodion Cymd. Hanes Sir Gaern. 1963

## Mellt, taranau...ac eira

**Rhiw; 8 Tachwedd 1919:** Bwrrw eira. Mellten yn mynd i'r Henllys, Llanbedrog. Dyddiadur Griffith Thomas (gwefan rhiw.com)

**Waunfawr; 26 Rhagfyr 2004:** eira bron wedi mynd ond y Foel i gyd yn wyn. Mellt a thrannau yn y nos a swm cenllysg ar y to (gwynt nerth 3 gogledd; glaw 11.8; tymheredd uchaf 2.7, isaf -1)

Dyddiadur DB

**Waunfawr; 18 Rhagfyr 2010:** Eira mawr eto, 10 modfedd. Cymydog yn dweud bore ma bod yna fellt a tharannau neithiwr tua 10 o'r gloch, y tarannau yn agos iawn i'r mellt o ran amseriad ac yn dod o gyfeiriad Bangor. Gwelson ni fflachiadau tra'n cymdeithasau ym Mhant y Defaid. (Dim gwynt y bore, eira trwm 10modfedd dros y ddwy noson ddiwethaf, tymheredd uchaf 0.6, isaf -1.6)

Meddai Huw Holland Jones: *I've been looking at all the sferics (lightning strikes) maps for the past 24 hours, but nothing shows up for around 10pm Fri night. However, lightning has been observed with last night's and today's snow event, indeed there is lightning over the Lake District and South Coast of England right now (1.45pm). Lightning was recorded over NE Wales and Merseyside last night, and today's Snowdonia Weather Forecast warns of lightning in the heavier snow showers (those CuNim clouds I pointed out are potential lightning sources). So, yes, it's quite possible your friend (and yourselves) saw distant lightning last night at 10pm, probably from a CuNim over the mountains. There was hail last night, this can be associated with lightning. Lightning can be seen from surprisingly distant locations, whereas at the most thunder can only be heard from about 10-12 miles.*

## Bras yr Eira...mwy yn Yr Oriol



Mae haid o Fras yr Eira yn gaeafu yn Nhrwyn Horton, Rhyl bron bob gaeaf ond dyma'r tro cyntaf i mi gael tynnu llun rhai ac eira ar y traeth, roedd 7 yno heddiw, Rhagfyr 18.

Llun gan Alun Williams

Bras yr Eira. Ceiliog yn ei blu gaeaf. Roedd yna un arall (un gaeaf cyntaf dwi'n meddwl) hefo fo yn Trawsfynydd heddiw. 14/12/2010


Llun: Dewi Edwards



Roedd pum Bras yr Eira ar draeth y Parlwr Du, Sir y Fflint, ar ddydd Llun, Tachwedd 16, 2009. Dyma lun o un ohonynt.

Cyfrannwyd y llun gan Eifion Griffiths

## Y carfil mawr, a'i enw dirgel



Spesimen yng nghasgliad Amgueddfa Genedlaethol Cymru

Yn Rhifyn 35 soniwyd am y posibilrwydd mai'r carfil mawr oedd y "penguin" cyntaf ac mai morwyr Cymraeg a'i henwodd ar ôl ei ben gwyn. Mae cwestiwn arall yn codi ynglyn ag enw'r aderyn hwn - sef, o ble daeth yr enw diweddarach arno, sef carfil? Yr enw arno yn yr Alban (cyfeirer at y dyfyniad gan Martin Martin yn y rhifyn diwethaf) oedd *gairfowl*. Dyma ddywed yr Oxford English Dictionary am y gair hwn:

*Etymology:* < Old Norse *geir-fuǵl* = Faroese *gorfuǵlur*, Swedish *garfögel*, Danish (from Icelandic) *geirfuǵl*. Hence also Gaelic *gearbhul* *garefowl*, and French *gorfou* a sort of penguin. The meaning of the first part of the compound is uncertain.

Gair o Hen Nors yw *gairfowl* felly, a aeth i'r Gaeleg fel *gearbhui*. Cofnod Martin Martin yn 1698 yw cofnod cyntaf y gair. Tybed ai ymdrech Martin i ynganu hwn y ffurf *gairfowl*? Dyma ddywed Geiriadur Prifysgol Cymru am etymoleg y gair carfil:

carfil, carfyl [elf. anh. + S. *bill* ...ni welais i un carfil na phwffingen ML

O arall-eirio hwn cawn: "yn llythyrau Morrisiaid Môn (1728-65) mae'r cyfeiriad cyntaf at carfil. Mae dwy elfen i'r gair, sef car- (elfen o dras anhysbys) a -fil (sef Cymreigiad o'r Saesneg *bill*)". Yn absenoldeb tystiolaeth terfynnol o darddiad y gair hwn, gallwn ddamcaniaethu mai ffurf ar *gairfowl* yw carfil, ac mai'r carfil mawr oedd y carfil cyntaf i ddwyn yr enw. Mae'r enw gyda ni o hyd yn y gair am y *little auk*, y carfil bach, sydd, yn wahanol i'w frawd mawr, yn ffynnu o hyd ym marthau'r gogledd ac yn ein cyrraedd yn lluosog iawn yn ystod ac ar ol tywydd stormus. Cytuno, chwi eirgarwyr?

## Mór o eira



Tynnwyd hwn o Forfa Dinlle, Y Foryd, Caernarfon, Dwyran, Niwbwrch, Traeth Melyn ac Aber Menai yn ystod yr eira mawr Rhagfyr 2010 o'r awyren sy'n hedfan o Gaerdydd i Ynys Mon.

Llun gan Judy Hutchings

## ...on ddy rocs



Dyma ddangos effaith y tywydd oer (Nadolig 2010) ar dun o Diet Coke (chwith) yn fy nghar. Llun: Gwyn Williams  
Dyweddodd Aled Jones bod y trwch o eira ar ei gar wedi cadw potel o ddwr rhag rhewi, diolch i rinweddau'r eira i nysu gwres. Mwy am hyn yn y man.

## Titwod



Dyma ddau ditw tomos las - un yn llawer iawn goleuach na'r llall. 30 Rhagfyr 2010 - Dinbych. Llun a sylw: Gwyn Williams  
Sgwn i am faint fydd o'n goroesi Gwyn?

Titw tomos las yn yr ardd gefn, beth am benawd addas i'r llun !

Llun a sylw: Alun Williams

Ateb Eifion Griffiths:  
Dyma fy nghynnig i:  
Ble mae'r ceirw i dynnu dy sled?




## бабоўка Набокова

'Toes yna bobl amryddawn yn yr hen fyd 'ma deudwch? Wyddoch bod yr awdur enwog amlieithog hwn o Rwsia a ysgrifennodd y nofel Lolita hefyd yn entomolegydd o fri? Disgrifiodd sawl rhywogaeth o lojnnod byw ac fe enwyd un ar ei ôl.



Vladimir Vladimirovich Nabokov (awdur "Lolita") gyda'i rwyd glojnnod



Echinargus NABOKOV 1945 [Lycæniidae]: a genus of butterflies named by Vladimir Nabokov

Glesyn cyffredin. Tynnais y llun ym Mae Cemlyn, Mai 29. Llun gan Alun Williams



Dyma aelod mwyaf cyffredin Cymru o deulu'r *Lycaenidae*, y gleision. Hwn yw'r glesyn cyffredin. Eraill yng Nghymru yw'r glesyn Adonis, glesyn bach a'r glesyn serenog.

A llun (de) yn dangos y patrwm odditano, hefyd gan Alun (Gwarchodfa Natur Glascoed, Llanelwly, 1 Awst 2010)



## O ddrycin daeth Heulwen

Ar ôl cael hanes Rhinogwen yn rhifyn diwethaf, dyma rhywun arall y mae hanes ei henw yn gofnod tywydd...

**26 Medi 1954:** Heulwen Jones yn dweud iddi gael ei geni adref yn Llanberis y diwrnod hwn a'i mam yn gyndyn o'i galw yn Heulwen i ddechrau gan fod storm o law a gwynt y diwrnod hwnnw. "Mi fydd hi'n heulwen i ti yn fuan iawn siwr i ti" meddai rhywun! A Heulwen oedd hi... Oes gennych chi neu aelod o'ch teulu enw sydd yn gofnod tywydd? Gyda llaw, dau ddiwrnod ar ôl geni Heulwen cofnododd Les Larsen yr eira cyntaf (cynnar) uwchlaw 3000' yn Eryri. Ewch i weld rhagor o'i gofnodion, hefyd yn rhifyn diwethaf.

## Noson brysur i Jeri...

Llangristiolus, Môn 2 Ion 1941: *wintry..cold..a Jerry plane awoke me this morning at six* Dyddiadur TG Walker  
Caerdydd 2 Ion 1941: *World War II: German bombing severely damages the Llandaff Cathedral in Cardiff, Wales.*

www.historyorb.com

## Yr Eirlys, Blodyn yr Eira Lili Wen Fach, Lili Fach yr Eira , Tlws yr Eira.....

....Tlws yr Eira o Sir Gaernarfon, Prydferth Ôd (neu jyst Yr Ôd), Eiriawl, Eiriol, Mws yr Eira, Cloch Maban, Cloch yr Eiriol ag Eirdlws. Mae tua 18 o enwau wedi eu cofnodi yn Blodau'r Maes a'r Ardd, Gwenllian Awbery (1995), ac Enwau Cymraeg ar Blanhigion, Dafydd Davies & Arthur Jones (1995)]. Neu ewch i Geiriadur Enwau a Thermau gwefan Llên Natur